

CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych

Gweinidog: Y Parch Ddr Andras Iago – Ffon- 07778511672

Ebrill

2018

Rhif 084

Roedd silffoedd archfarchnadoedd dyffryn Clwyd yn fins peis a chracys o hyd pan welais i fy wy Pasg cyntaf am eleni. Mae'n teimlo, bron, fod y tymhorau sy'n arwain at y Nadolig a'r Pasg yn dechrau'n gynharach bob blwyddyn, ac yng nghanol y bwrlwm gallwn bron drin diwrnod Dolig a Sul y Pasg fel diwedd cyfnod – ac amser i symud ymlaen at y peth nesaf.

Ond does dim angen i ni fyth symud ymlaen o ddigwyddiadau'r Pasg. Ar ddydd Gwener y Groglith rydyn ni'n cofio fod Iesu, trwy ei ddioddefaint a'i farwolaeth, wedi marw trosom ni. 'Ein dolur ni a gymerodd ... archollwyd ef am ein troseddau ni'. Trwy ei farwolaeth mae ffordd wedi ei hagor at Dduw i bob un sy'n ymddiried ynddo.

Ar Sul y Pasg rydym yn dathlu i Iesu ddod yn ôl o farw yn fyw, gan 'goncro grym y bedd'. Cawn ein hatgoffa ar y Sul hwn fod gennym 'wir a diogel obaith'. Ry'n ni'n aml yn clymu'r gair 'gobaith' â phethau ansicr bywyd. Efallai i ni *obeithio* am dywydd da yn aml eleni, ond prin gellid dweud i ni ei gael! Ond ar Sul y Pasg cawn ein hatgoffa fod ein gobaith yn sicr ac yn real. Mae'r bedd yn wag, ac mae Iesu'n fyw.

Mae'r pethau hyn yn rhy bwysig i'w gadael i un penwythnos yn y gwanwyn. Felly Beth am holi'r cwestiwn eleni – beth mae digwyddiadau'r Pasg yn golygu i mi? Trafodwch â ffrind, neu os nad oes un wrth law, mynnwch sgwrs!

DYDDIADUR

Gwyl Flodau'r Pasg ac Arddangosfa Gwaith Crefft

Capel Mawr, Dinbych 29 Mawrth – 2 Ebrill 2018

Amseroedd agor:

Dydd Iau, 29 Mawrth 10yb – 3.00yp

Nos Iau 29 Mawrth – Gwasanaeth Nos Iau Cablyd

Paned a sgon yn dilyn y gwasanaeth

Dydd Gwener 30 Mawrth – Dydd Llun 2 Ebrill -2.00y.p – 5.00 yp

Gwneir casgliad dros gyfnod yr ŵyl tuag at Cymdeithas
Alzheimers Cymru.

**Dydd Sul 1 Ebrill – Gwasanaeth Sul y Pasg yn y Capel Mawr,
Dinbych, 10 y.b.** Bydd gweithgaredd i blant wedi ei drefnu yn y
festri yr un pryd a'r gwasanaeth.

Digwyddiadau Cytûn Dinbych

Ddydd Gwener y Groglioth: Taith drwy'r dre. Cyfarfod am 2 y.p. yn
St Thomas.

Sul y Pasg: Gwasanaeth i ddathlu'r Atgyfodiad. Ger y castell, 7
y.b.

Cinio'r Fro - Gwener, 13 Ebrill, 12 y.p.

Croeso cynnes iawn i baw i ddod i gymdeithasu gyda'n gilydd fel
bro dros bryd o fwyd.

Cangen Genhadol Chwiorydd – Henaduriaeth Dyffryn Clwyd Sasiwn Gwanwyn 2018 – Bethania Rhuthun, 2 Mai

Bydd angen codi oddeutu £1000 i'w chynnal. Gan bod pedair bro o
fewn yr Henaduriaeth, golyga hyn £250 y fro. Mae deg eglwys ym

mro Dinbych, felly, disgwylwn £25 yr eglwys, yn ychwanegol at y Casgliad arferol.

Gobeithio y rhowch sylw i'r mater, ac y byddwch yn trefnu yn eich eglwysi sut i godi'r arian.

Diolch yn fawr iawn.

Pamela Lloyd a Gaynor Prew

(Cynrychiolwyr y fro ar y pwyllgor uchod)

Astudiaeth Feiblaidd

Bydd yr Astudiaeth Feiblaidd yn ailgychwyn wedi'r Pasg ac yn cyfarfod ar bob dydd Mercher am 1.30 y.p. Croeso cynnes i bawb!

TREFNIADAU'R EGLWYSI

BODFARI

Dydd Sul, Ebrill 8fed

9.45 – Parch Andras Iago

Dydd Llun, Ebrill 9fed

Cinio Cynnil yn y Ffestri o 12.00 – 1.00

Croeso cynnes i bawb

Dydd Sul, Ebrill 29ain

2.00 – Parch Andras Iago

BRWCWS

Dydd Sul, Ebrill 8ed

Ysgol Sul am 10.00

Oedfa am 2.00 i'w drefnu

Dydd Sul, Ebrill 15ed

Ysgol Sul am 10.00

Parch. Megan Williams am 2.00

Nos Fercher, Ebrill 18ed

Cymdeithas Chwiorydd Y Fron a'r Brwews am 7.00
Noson Goffi a Trefnu Rhaglen.

Dydd Sul, Ebrill 22ain

Ysgol Sul am 10.00
Parch. Brian Wright am 2.00

Dydd Sul, Ebrill 29ain

Ysgol Sul am 10.00
Parch. Glyn Jones am 2.00

Casgliad Cenhadol y Chwiorydd

Bydd Rhianwen Williams yn derbyn eich cyfraniadau erbyn Ebrill
8ed os gwelwch yn dda.

Y Banc Bwyd

Cofiwch am y bocs ar gyfer rhoddion i'r Banc Bwyd. Derbynnir
pob rhodd gyda diolch.

DYFFRYN

Dydd Sul, Ebrill 8fed am 11 yb

Mrs Mair Penri Jones
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion am 10.30)
Eryn a darllen - Menna Ellis
Organ - Alaw
Blodau - Margaret Williams

Dydd Sul, Ebrill 15fed am 9.45yb

Sarah Dafydd
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion am 9.15)
Eryn a darllen - Ceri neu Ian
Eryn a darllen plant - Ysgubor Wen
Organ - Lona
Blodau - Alaw

Dydd Sul, Ebrill 22ain am 9.45 yb – Gwasanaeth Bedydd

Parch. Andras Iago
Emyn a darllen - Ffiona neu Arwyn
Emyn a darllen plant - Ysgubor Efa
Organ - Anwen
Blodau - Catrin

Dydd Sul, Ebrill 29ain am 11 yb

Mrs Enid Davies
Gwasanaeth/Ysgol Sul Plant (Ysgol Sul Oedolion am 10.30)
Emyn a darllen - John Hugh
Organ - Glenys
Blodau - Myfanwy

GELLIFOR

Dydd Sul Ebrill 8fed

9.45 - Mair Penri Jones
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Bryn Bedw
Offeryn – Alaw
Blodau - Elaine

Dydd Sul, Ebrill 15fed

11.00 - Sarah Dafydd
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Hafod y Coed
Offeryn – Margaret
Blodau - Elaine

Dydd Sul, Ebrill 22ain

11.00 – Parch Andras Iago - Cymun
Llywydd –Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Elspeth
Offeryn – Nia
Blodau – Sioned

Dydd Sul, Ebrill 29ain

9.45 – Enid Davies
11.00 – Paned a Sgwrs –
yn y Festri yng ngofal Wyn, Mei, Huw, T ffordd

Rhoddion i Elusen diolch
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Plas yn Rhos
Offeryn – Richard
Blodau – Sioned

FRON

Llywydd y Mis – Mrs Gaynor Prew

Dydd Sul, Ebrill 8fed

10.00 – Fron – Parch T.E. Williams, Henllan

5.30 – Capel Mawr –

Dydd Sul – Ebrill 15fed

10.00 – Capel Mawr – Parch Megan Williams

5.30 – Fron – Parch Megan Williams

Dydd Sul, Ebrill 22ain

10.00 – Fron – Parch Brian Wright, Cyffordd Llandudno

5.30 – Capel Mawr – Parch Brian Wright

Dydd Sul, Ebrill 29ain

10.00 – Capel Mawr – Parch R. Glyn Jones, Llanrwst

5.30 – Fron – Parch R. Glyn Jones

Blodau – yn gyfrifol – Mrs Jois Snelson

Ebrill 1af – Oedfa'r Pasg – Capel Mawr

8fed – Er cof am Dei Groeswen

15fed

22ain

29ain – Dilys Davies

Croesawu

Ebrill 8fed – Erfyl Williams

15fed – Wendy Lloyd Jones

22ain – John Geraint Jones

29ain – Dilys Davies

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Tom Prydderch ar ddatlu ei priodas
Diamwnt ar ddydd Gwyl Dewi.

Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwews

Y mae'r gymdeithas wedi cael gwahoddiad i ymweld a Fferm
Llainwen. Mae hyn wedi digwydd oherwydd bod Mrs Carys Parry
wedi methu dod atom yn mis Mawrth. Os oes rhywun a diddordeb
i ddod i Llainwen i gael hanes y "Wyau Lliwgar" ar nos Fercher
Ebrill 18fed a fuasech yn rhoi eich enwau ar y rhestr yn y cyntedd
er mwyn i ni wneud trefniadau.

Y CAPEL MAWR A SEION

**** DALIER SYLW**

Dydd Sul, Ebrill 1

**10am - Oedfa'r Fro yn Y Capel Mawr dan arweiniad y
Gweinidog

**Dim oedfa yn yr hwyr

Dydd Sul, Ebrill 8

10am - Y Fron - Y Parch. T. Evans Williams, Henllan

5.30pm - Y Capel Mawr - I'w drefnu

Dydd Llun, Ebrill 9

1.30pm - Cyfarfod Gweddi

Dydd Sul, Ebrill 15

10am - Y Capel Mawr - Y Parch Megan Williams,
Porthaethwy

5.30pm - Y Fron - Y Parch Megan Williams, Porthaethwy

Dydd Mawrth, Ebrill 17

Yr Aelwyd am 1.30pm

Dydd Sul, Ebrill 22

10am - Y Fron - Y Parch. Brian Wright, Cyffordd

Llandudno

5.30pm - Y Capel Mawr - Y Parch. Brian Wright, Cyffordd

Llandudno

Dydd Sul, Ebrill 29

Y Capel Mawr - Y Parch. Glyn Jones, Llanrwst
5.30pm - Y Fron - Y Parch. Glyn Jones, Llanrwst

Llywydd Y Mis: -

Mrs Cheryl Williams

Casglyddion/ Wrth y Drws:-

Mrs Alwen Rönnpag
Mrs Mair Eluned Jones
Mrs Carys Jones
Mrs Mair Davies

Organydd-

Ebrill 1 - Mrs Dorothy Rogers
Ebrill 8 - Mrs Doroth Rogers
Ebrill 15 - Mrs Catrin Warren
Ebrill 22 - Mrs Catrin Warren
Ebrill 29 - Mrs Dorothy Rogers

Blodau:-

Ebrill 15 - Robat, Bedwyr a Medwen
Ebrill 29 - Mrs Mair Jones

CYDYMDEIMLAD - Cydymdeimlwn â Mrs Catrin Warren a'r teulu yn ei phrofedigaeth o golli'i chwaer. Cofiw'n amdani yn ein gweddïau.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL - MAI 13 - 20
Byddwn yn chwilio am wirfoddolwyr ar gyfer y casgliad o dŷ i dŷ, ac yr ydym yn ddiolchgar i bawb a wnaeth hyn yn y gorffennol. Mwy o fanylion i ddilyn.

Aelwyd Capel Mawr

Buom yn dathlu Gŵyl Ddewi yn ein Cyfarfod mis Chwefror. Dechreuwyd gan Olwen Roberts yn darllen penillion am Gwyl Ddewi a'r emyn "Dros Gymru'n Gwlad".

Croesawyd bawb a chroeso arbennig i'r gwr gwadd John Eric Hughes Abergele. Mae yn gyn-brifathro, yn fardd llwyddianus ac yn weithgar iawn yn ei gymuned. Braff hefyd oedd cael croesawu Meirwen.

Rhai o enwogion Cymru oedd testun ei sgwrs. Cawsom enghreifftiau o gerddi R Williams Parry i bobl fel Saunders Lewis a Hedd Wyn; ac i'r byd natur fel Y Llwynog, Y Gylfinir ac Eifionydd. Er fod y cerddi hyn yn gyfarwydd i ni, roedd ei ddarllen a'i drafod o'r darnau yn rhoi golwg newydd arnynt. Siaradodd hefyd am Tom Pistyll oedd yn bregethwr mawr, yn llenor ac yn gerddor. Cawsom enghreifftiau o'i waith yntau hefyd ac yn enwedig ei ddywediadau cofiadwy. Y trydydd gwr enwog y soniodd amdano oedd Thomas H Parry Williams Rhyd Ddu. Cyfeiriodd at ei ffordd dawel dirodres yn sylwi ar bethau di nod fel Y Ferch ar y Cei yn Rio. Roedd ei gefnder Thomas Parry wedi dylanwadu llawer arno.

Diolchwyd iddo gan Ronwy Rogers ac i bawb fu'n cyfrannu a pharatoi te Gwyl Ddewi.

PENTRE, PRION, GLYN

Dydd Sul, Ebrill 8fed

11.00 - Pentre - Gweinidog

Dydd Sul, Ebrill 15fed

9.45 - Prion - Parch Hugh Pritchard

Dydd Sul, Ebrill 22ain

9.45 - Pentre - Mr Aled Lewis Evans

Dydd Sul, Ebrill 29ain

9.45 - Pentre - Gweinidog - Cymun

11.00 - Parch Andras Iago

COFION at bawb sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Morfydd Evans ar ddod yn hennain i Llewelyn Puw, mab bach i'w wyres Rhian ac Oliver.

BORE COFFI Sadwrn 5ed Mai, yn y Festri 10.30 – 12, elw at Cymorth Cristnogol ac elusennau lleol, Stondin Gacennau a raffl – Byddwn yn falch o dderbyn cacennau cartre ar gyfer y stondin os gwelwch yn dda, tocynnau £1 yn cynnwys paned a bisgedi,

CÔR CYTGAN CLWYD

Ymddiheurwn fod Cyngerdd Côr Cytgan Clwyd wedi ei ohirio oherwydd y tywydd. Byddwn yn aildrefnu a chadarnhau'r dyddiad newydd yn y rhifyn nesaf.

GLYN

Dydd Sul, Ebrill 22

2.00 - Parch Andras Iago

TREFNANT

Llywydd y Mîs : HYWEL a DILYS HUGHES

SYLWER AR HOLL WEITHGAREDDAU Y FRO DROS BEN-WYTHNOS Y PASG - cynhelir yr **WYL FLODAU** eleni yn y **CAPEL MAWR** - Dewch i gefnogi.

Dydd Sul Ebrill 1af

10.00 **SUL Y PASG** - OEDFA'R FRO

Dydd Sul Ebrill 8fed

10.00 Mr Royce Warner 11.00 YSO

3.30 Gwasanaeth Gweddi a Mawl

Blodau : Gwenda Roberts

Dydd Sul Ebrill 15ed

9.45 Bugail 11.15 YSO

3.30 Bugail

Blodau : Gwenda Roberts

Dydd Sul Ebrill 22ain

10.00 Mrs Buddug Medi 11.15 YSO

3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl

Blodau : Beti Hughes

Dydd Sul Ebrill 29ain

10.00 Parch Nerys Tudor gyda paned i ddilyn

3.00 Parch Nerys Tudor

Blodau : Dorothy Jones

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Mae'r cyfarfodydd ar brynhawniau Llun yn parhau yn llwyddiannus rhwng 2.00 – 4.00. Cyfle i gyfarfod i gyd-addoli, creu nwyddau ar gyfer elusennau a chymdeithasu dros baned. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL yn anffodus, gorfu i ni ganslo ein dathliad Gwyl Dewi ond hyderwn y gawn cwmni GALWAD CYNNAR ar yr 22ain o Fawrth. Ar Nos Wener, Ebrill 27ain, trefnir ymweliad a'r Eglwys Wen, Dinbych, dan arweiniad yr hanesydd Gwyn Jones, Llannefydd. Croeso cynnes i bawb fel arfer.

CYFARCHION a DYMUNIADAU GORAU i Betty Griffiths sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Glan Clwyd yn derbyn triniaeth. Hyderwn y byddwch yn ymgryfhau yn fuan, Betty, ac y byddwch yn ol yn Nhrefnant cyn hir. Cofion hefyd, at eraill sy'n dal yn methu'r oedfaon – gobeithio y gallwn eich croesawu yn ol yn fuan.

NEGES NESTA

Straeon am Dafydd a fuom yn eu cyflwyno wrth *Agor y Llyfr* yn ddiweddar, a clywsom am ei gyfeillgarwch â Jonathan, ac fel yr oedd Tad Jonathan, y brenin Saul yn genfigennus ohonno, a bu raid i Dafydd druan ddianc. Ond medrodd Dafydd ei berswaidio yn y diwedd nad oedd am ei ladd. Roedd y straeon yn canolbwyntio ar yr angen am ffrindiau da – ffaith ddaeth i'r amlwg yn ein stori olaf cyn y Pasg – Diwrnod Tristaf Pedr.



Roedd Pedr weddi mynnu y byddai'n aros yn ffyddlon i'r Iesu, ond cyn caniad y ceiliog roedd wedi eu wadu deirgwaith, a gwelodd ei ffrind yn marw ar y Groes. Cawsom help y plant i fod yn ddisgyblion a milwyr, ond braf yw nodi ar ôl y Pasg bydd un arall yn dod i'n helpu mewn stori llawer mwy calonnogol – Diwrnod Hapusaf Pedr. Helen Pierce ydy hi, a bydd yn cymryd rhan Mair Magdalen yn y Stori Honno. Cymeriad sydd i'w gweld ar hyn o bryd yn y Sinema yw hi mewn ffilm o'r un enw. Os hoffech chi fynd am noson allan – dewch mewn cysylltiad.

Er gwaethaf y tywydd gaeafol, llwyddwyd i gael naw Gymreig yn y Cinio ar Fawrth 9fed gyda'r dewis o gawl Cennin a thatws neu

Sgows cig oen gyda bara ffres a a Phwdin, a chacen gri i orffen.
Diolch i Gapel Trefnant am ein eitemau a rhoi hwyl ar y canu.



Diolch i Carolyn Thomas am drefnu'r Oedfa nos Iau Cablyd a'r
Chwirydd am gymeryd rhan, ac i bawb weithiodd yn galed i
wneud gosodiadau ar wahanol stori o'r Beibl, a'r holl waith llaw a
fu 'n cael ei arddangos. Bydd lluniau ar gael erbyn y mis nesa.

Gobeithio y cawsoch fendith beth bynnag a wnaethoch.

Nesta

Newyddion rhifyn Mai o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Ebrill 20fed

e-bost :

meinididdos13@gmail.com

neu: 01745890417